# Ymyrraeth: Teithio Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| Arwain | Ceri Doyle / Craig Lane |
| Cyfnod Adrodd | Ch2 2022-23 |

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
| Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

**CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy:** Cafodd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ei lansio ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o sefydliadau wedi ymuno â'r siarter hyd yn hyn. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu arfer gorau i gyflawni'r 15 ymrwymiad yn y siarter.

**CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo:** Mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain y gwaith ynghlwm â phennu dichonolrwydd llogi beiciau ar y stryd. Mae gwelliannau i lwybrau teithio llesol ym Mryngaer Croes Trelech a gosod wyneb newydd ar lwybr Camlas Malpas/Betws wedi eu cwblhau. Roedd y tri ymarferiad peilot yn y tair ysgol gynradd a ddewiswyd i gymryd rhan yn y cynllun strydoedd ysgol di-draffig yn llwyddiannus iawn ac fe gynhyrchodd lawer iawn o adborth cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol. Sicrhaodd CDC a Sustrans ymgysylltu llawn â rhieni a thrigolion lleol ac mae'r ysgolion yn barod i gymryd y camau nesaf wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Defnyddir y Map Rhwydwaith Teithio Llesol i gynllunio datblygiadau teithio llesol yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf gyda cheisiadau am gyllid i'w cyflwyno ym mis Ionawr 2023.

**CAM 3: Annog defnyddio ULEV:** Mae dau leoliad gwefru cyflym wedi dod ar-lein yn y chwarter diwethaf, wedi'u targedu at ddefnydd preswylwyr. Mae Llywodraeth Ganolog wedi cadarnhau y gallant ddarparu 75% o arian cyfatebol hyd at £90k ar gyfer 10 lleoliad gwefru i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol hon. Cysylltwyd â LlC ynghylch y cyllid cyfatebol o 25%.

| Prif Risgiau / Rhwystrau | Statws | Camau Lliniarol |
|---|---|---|
| *Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.* | Uchel | *Mae cynrychiolwyr SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.* |
| *Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.* | Canolig | *Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.* |
| *Nid yw'r cynllun llogi beiciau ar y stryd yn mynd yn ei flaen.* | Canolig | *Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.* |

| Mesurau Perfformiad | | Amserlen | | Targed | Gwirioneddol | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1: Siarter Teithio** | Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent | Tach 2021 | | 15 | 23 | Gwyrdd |
| **Cam 2: Teithio Llesol** | % y cynnydd mewn teithiau o gyfrifon teithio llesol ar lwybrau teithio llesol o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer pob chwarter (sylwer efallai na fydd y ffigurau hyn yn gywir yn sgil synwyryddion a oedd wedi torri) | 2020-21 | Year | 25% | 47% | Gwyrdd |
| | | 2021-22 | Ch1 | | 30% | Gwyrdd |
| | | | Ch2 | | 14% | Oren |
| | | | Ch3 | | | |
| | | | Ch4 | | | |
| | | | Year | | 40% | Gwyrdd |
| **Cam 3: ULEV** | Nifer y bysus ULE ar waith | Rhag 2022 | | 30 | 16 | Oren |
| | Pwyntiau gwefru wedi'u gosod | Mawrth 2021 | | 40 | 46 | Gwyrdd |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

***CAM 1****: Mae ymrwymiadau'r Siarter Deithio yn cael eu diweddaru gan sefydliadau. Mae holiadur staff yn cael ei gwblhau a chaiff ei yrru gan bob sefydliad rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023.*

***CAM 2:*** *Rhaglen weithredu gyflawn gan gynnwys pont droed Devon Place a chyflwyno ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.*

***CAM 3:*** *Mae CDC yn parhau i weithio gyda P-RC ar gyflwyno 10 gwefrydd cyflym arall.*